OXFORD BROOKES UNIVERSITY

ipc institute of public care

# Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus

## Tystysgrif Ôl-radd mewn Arwain a Rheoli Gwasanaethau Iechyd Meddwl

## Rhaglen a Llawlyfr Myfyrwyr 2025-2026

Cod HECoS (*code*): 100476

# Cynnwys


**1. Rhagarweiniad a throsolwg o'r rhaglen 4**

**2. Canlyniadau dysgu'r rhaglen 8**

2.1. Llythrennedd academaidd 8

2.2. Llythrennedd ymchwil 8

2.3. Hunan-ymwybyddiaeth a llythrennedd personol 8

2.4. Llythrennedd digidol a gwybodaeth 8

2.5. Dinasyddiaeth weithredol 9

**3. Gofynion Mynediad 9**

**4. Addysgu, dysgu ac asesu 10**

4.1. Addysgu a dysgu 10

4.2. Asesu 10

4.3. Graddau, marcio a safoni 11

4.4. Amgylchiadau Eithriadol 12

**5. Yr hyn a ddisgwyliwn gennych 13**

5.1. Polisi Oxford Brookes ar Ymrwymiadau a Rennir 13

5.2. Arferion academaidd 14

5.3. Deallusrwydd Artiffisial a'u ddefnydd yn yr asesiad hwn 15

5.4. Cyfrinachedd 15

5.5. Polisi iaith 15

**6. Modiwl 1: Arwain a rheoli ar gyfer canlyniadau o ansawdd mewn gwasanaethau iechyd meddwl 16**

6.1. Canlyniadau Dysgu'r Modiwl 16

6.2. Cynnwys y Modiwl 17

6.3. Nodi'r Oriau Dysgu 17

6.4. Modiwl Asesu Tasg 17

6.5. Hanes dilysu'r Modiwl a'r newidiadau a wnaed i'r modiwl mewn ymateb i adborth myfyrwyr ac eraill 18

**7. Modiwl 2: Hyrwyddo ac ymgorffori gwella ansawdd ac arfer seiliedig ar dystiolaeth yn y gwasanaethau iechyd meddwl 19**

7.1. Canlyniadau dysgu'r Modiwl 19

7.2. Cynnwys y modiwl 20

7.3. Nodi'r Oriau Dysgu 20

7.4. Modiwl Asesu Tasg 21

7.5. Hanes dilysu modwl a'r newidiadau a wnaed i'r modiwl mewn ymateb i adborth myfyrwyr ac eraill 21

**8. Modiwl 3: Arwain datblygiadau a newid yn y gwasanaethau iechyd meddwl 22**

8.1. Canlyniadau Dysgu'r Modiwl 22

8.2. Cynnwys y Modiwl 23

8.3. Nodi'r Oriau Dysgu 23

8.4. Asesu Modiwl 23

8.5. Hanes dilysu modiwl a'r newidiadau a wnaed i'r modiwl mewn ymateb i adborth myfyrwyr ac eraill 24

**9. Eich llais 25**

9.1. Cynrychiolaeth myfyrwyr 25

9.2. Cwynion ac apeliadau 25

**10. Cymorth Myfyrwyr 26**

10.1. Eich tîm addysgu a gweinyddwyr 26

10.2. Cymorth astudio 27

10.3. Adnoddau Dysgu 27

**Atodiadau 29**

Cytundeb rhwng y Myfyriwr a'r Asiantaeth Gyflogi 29

# 1. Rhagarweiniad a throsolwg o'r rhaglen

Cynigir Tystysgrif Ôl-radd mewn Arweinyddiaeth a Rheoli Gwasanaethau Iechyd Meddwl gan Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC), sy'n rhan o'r Gyfadran Iechyd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg ym Mhrifysgol Oxford Brookes.

Yn IPC rydyn ni'n darparu ymchwil gymhwysol a gwerthuso, ymgynghoriaeth a hyfforddiant i gynorthwyo ymddiriedolaethau GIG, cyrff llywodraethol, cynghorau, elusennau a sefydliadau masnachol er mwyn creu effaith bositif ar iechyd a llesiant pobl.

A ninnau'n sefydliad nodedig prifysgol, rydyn ni'n gweithio gyda'n cleientiaid i gynnig canlyniadau gwell o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gennym dîm yn cynnwys 40 o staff ac aelodau cyswllt sy'n gweithio ar draws y DU gyda llywodraeth ganolog a lleol, sefydliadau iechyd a darparwyr y sector annibynnol a gwirfoddol. Mae gennym ystod o fecanweithiau cyflenwi gan gynnwys prosiectau ymgynghorol, ymchwil a gwerthuso cymhwysol, gwefannau arbenigol a gwybodeg, a rhaglenni datblygu sgiliau. Rydyn ni'n defnyddio ein profiad proffesiynol a'n trylwyredd academaidd i yrru gwelliant ac arloesedd ym maes gofal. Os hoffech ragor o wybodaeth am waith IPC, ewch i https://ipc.brookes.ac.uk/.

Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIG/HEIW) gomisiynodd y rhaglen genedlaethol hon gan IPC.  Fe'i lluniwyd er mwyn sicrhau ei bod yn cynorthwyo arweinwyr a rheolwyr mewn lleoliadau iechyd meddwl, gan gynnwys nyrsio, therapi galwedigaethol a gwaith cymdeithasol, er enghraifft, wrth ddatblygu eu harweinyddiaeth a'u sgiliau rheoli. Ar lefel uchel, prif rôl y rhaglen ydy: .

- Cynorthwyo holl ddarpar rheolwyr tîm iechyd meddwl a holl weithwyr presennol yn y maes i gynnal ffocws ar wella canlyniadau o ansawdd da, gan gynnwys hawliau a diogelwch pobl sydd angen gwasanaethau iechyd meddwl.
- Ysbrydoli darpar reolwyr tîm iechyd meddwl a rheolwyr presennol yn y maes i roi o'u gorau a chael y gorau o bobl eraill.
- Grymuso holl ddarpar reolwyr tîm iechyd meddwl a holl weithwyr presennol yn y maes i gynnig egni ac ymrwymiad i'r gwasanaeth iechyd meddwl aml-ddisgyblaethol.
- Cyfrannu at gynorthwyo holl ddarpar reolwyr tîm iechyd meddwl a holl weithwyr presennol yn y maes drwy gynnig y sgiliau rheoli ac arweinyddiaeth priodol iddyn nhw allu parhau i ddatblygu eu gyrfaoedd ym maes iechyd meddwl yng Nghymru.

Lluniwyd y rhaglen yn benodol i helpu rheolwyr rheng flaen ac uwch ymarferwyr mewn lleoliadau iechyd meddwl i wella arweiniad a rheolaeth ym maes ansawdd ymarfer gwasanaethau iechyd meddwl oedolion a phlant.

Diben y llawlyfr hwn ydy cynnig gwybodaeth a fydd yn sail i gynllun, cyflenwi a rheolaeth eich cwrs. Ymgyfarwyddwch â'r cynnwys a siarad â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau. Nid hwn ydy'r unig lawlyfr sydd ar gael i chi. Mae Llawlyfr y Brifysgol / University Handbook, hefyd ar gael i chi, sy'n rhoi gwybodaeth i chi am bolisïau a rheoliadau'r brifysgol (regulations) yn ogystal â'r gwasanaethau cymorth myfyrwyr a llesiant sydd ar gael i chi.

Astudir y cwrs Tystysgrif Ôl-radd dros gyfnod o bedwar mis ar ddeg. Mae'r cwrs yn cynnwys tri modiwl gorfodol, i gyd ar lefel 7. Ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, byddwch yn ennill Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Arwain a Rheoli Gwasanaethau Iechyd Meddwl, gwerth 60 credyd CATS ar lefel ôl-radd Lefel 7, i'ch helpu gyda'ch Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP/CPD). Isod, ceir tabl sy'n amlinellu strwythur y rhaglen.

Mae trefn arbennig y modiwlau yn bwysig gan y bydd y rhaglen yn ailadroddol wrth i ni symud drwy'r tri modiwl.

| Enw'r Modiwl | Cod y Modiwl | Credydau | Statws |
|---|---|---|---|
| Arwain a rheoli ar gyfer canlyniadau o ansawdd mewn gwasanaethau iechyd meddwl | WFPC7020 | 20 | Gorfodol |
| Hyrwyddo ac ymgorffori gwelliant ansawdd ac arferion ar sail tystiolaeth ym maes gwasanaethau iechyd meddwl | WFPC7021 | 20 | Gorfodol |
| Arwain datblygiadau a newid ym maes gwasanaethau iechyd meddwl | WFPC7022 | 20 | Gorfodol |

Mae'r rhaglen yn cychwyn gyda sesiwn gyfeiriadedd fanwl sydd ddim yn un orfodol ond a argymhellir yn gryf. Gofynnir i chi gwblhau asesiad 360 gradd cyn i'r modiwl cyntaf gychwyn. Holiadur ar-lein ydy asesiad 360 gradd y byddwch chi, eich rheolwr llinell a detholiad o'ch cydweithwyr yn ei gwblhau. Bydd yn eich helpu i ddatblygu cynllun datblygiad personol (CDP/PDP) a fydd yn rhoi manylion am eich targedau dysgu i'ch arwain drwy'r rhaglen. Bydd angen i'ch rheolwr llinell gytuno â'r cynllun datblygiad personol o'i h/adnabyddiaeth ohonoch yn y gweithle er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys nodau datblygu priodol. Er mwyn ennill y dyfarniad, mae gofyn i chi gwblhau'r asesiad 360 gradd a chynllun datblygiad personol Bydd yr asesiad 360 gradd yn eich helpu i lunio'r Cynllun Datblygiad Personol (PDP). Ni fydd y PDP yn cael ei raddio'n unigol ac ni fydd yn cyfrannu at eich gradd derfynol, ond mae'n orfodol ac ni fyddwch yn pasio'r aseiniad cyntaf heb ei gwblhau.

Mae pob un o'r tri modiwl yn cynnwys sesiynau dysgu grŵp, hyrwyddo setiau dysgu gweithredol ac aseiniadau a asesir. Cewch sesiynau dysgu grŵp ysgogol ar gyfer pob modiwl sy'n cyfuno unedau theori ac astudiaethau achos ac ymarferion cymhwyso ymarferol. Byddwch hefyd yn derbyn cymorth unigol gydag Ymgynghorydd Academaidd er mwyn sicrhau y gallwch ddefnyddio'r hyn a ddysgwch yn effeithiol yn eich gweithle ac yn eich darnau gwaith a asesir.

Byddwch yn ymgymryd ag un asesiad ar gyfer pob modiwl, a bydd hyn yn cyfrannu at eich gradd derfynol – gweler adran 4 am ragor o wybodaeth am asesu, graddau a marcio. Rydyn ni'n eich annog chi i gwblhau eich asesiadau a derbyn cymorth unigol

drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff yr asesiadau eu gosod a'u cytuno yng nghyd-destun eich lleoliad gwaith ac felly gellir eu teilwra'n unigol i ddiwallu anghenion eich asiantaeth gyflogi. Ar gyfer modiwl tri, byddwch yn ymgymryd â phrosiect yn seiliedig ar waith a bydd gofyn i'ch rheolwr llinell gwblhau datganiad arsylwi o'ch gwaith ar y prosiect hwn.

Mae'r rhaglen yn gorffen gyda gwerthusiad o weithgareddau'r rhaglen a'ch anghenion dysgu, gan gynnwys ail-ystyried yr asesiad 360 gradd a'ch cynllun datblygiad personol. Isod, ceir diagram sy'n dangos gweithgareddau'r rhaglen.

**Cynllun a Chychwyn y Rhaglen**

- Sesiwn gyfeiriadedd ar gyfer cyfranogwyr
- Cwblhau asesiad 360 gradd a chynllun datblygiad personol ac adolygu'r cynllun gyda'ch Ymgynghorydd Academaidd

| | | |
|---|---|---|
| • Modiwl 1 (2 ddiwrnod): Arwain a rheoli i gael canlyniadau o ansawdd ym maes gwasanaethau iechyd meddwl | Sesiynau grŵp ac unigol:<br>• Cymorth aseiniad<br>• Setiau dysgu gweithredol<br>• Cymorth tiwtor grŵp<br>• Cyfarfod cymorth 1:1<br>Amser hunan-astudiaeth | Asesiad:<br>Aseiniad ysgrifenedig a asesir<br>360 a'r CDP/PDP wedi ei gwblhau |
| • Modiwl 2 (2 ddiwrnod): Hyrwyddo ac ymgorffori arferion gwella ansawdd ac arferion yn seiliedig ar dystiolaeth mewn gwasanaethau iechyd meddwl | Sesiynau grŵp ac unigol:<br>• Cymorth aseiniad<br>• Setiau dysgu gweithredol<br>• Cymorth tiwtor grŵp<br>• Cyfarfod cymorth 1:1<br>Amser hunan-astudiaeth | Asesiad:<br>Astudiaeth achos a asesir yn seiliedig ar dystiolaeth yn y gweithle |
| • Modiwl 3 (2 ddiwrnod): Arwain datblygiadau a newid mewn gwasanaethau iechyd meddwl | Sesiynau grŵp ac unigol:<br>• Cymorth aseiniad<br>• Setiau dysgu gweithredol<br>• Cymorth tiwtor grŵp<br>• Cyfarfod cymorth 1:1<br>Amser hunan-astudiaeth | Asesiad<br>Prosiect a chyflwyniad datblygu blaenoriaeth a asesir yn seiliedig ar waith |

**Gwerthuso**

- Cwblhau asesiad 360 gradd ac adolygu cynllun datblygiad personol
- Gwerthuso'r cwrs ac anghenion dysgu

Ethos y rhaglen ydy cynorthwyo dysgu'r myfyrwyr drwy bartneriaeth waith yn cynnwys y myfyrwyr, eu hasiantaeth gyflogi a'r IPC fel darparwr y rhaglen. Mae asiantaethau cyflogi yn rhan barhaus o'r rhaglen a bydd y grŵp myfyrwyr yn cynorthwyo'i gilydd drwy gydol y rhaglen, i rannu sgiliau, gwybodaeth ac arferion. Mae IPC yn annog y defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo dysgu grŵp. Caiff y myfyrwyr gyfle i ddatblygu'n bersonol ond hefyd i ymgorffori y dulliau o fynd ati a'r adnoddau a ddysgwyd ar y rhaglen yn eu sefydliad eu hunain. Mae'r dull o fynd ati yn cydbwyso anghenion personol yn ogystal ag anghenion datblygu sefydliadol.

# 2. Canlyniadau dysgu'r rhaglen

Ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, byddwch yn arddangos y priodoleddau canlynol ar lefel ôl-radd:

## 2.1. Llythrennedd academaidd

- Meddu ar wybodaeth fanwl drylwyr o'r agenda cenedlaethol sy'n berthnasol i wasanaethau iechyd meddwl, a dealltwriaeth gritigol o'r goblygiadau ar gyfer eich tîm a/neu'ch sefydliad
- Arddangos dealltwriaeth gritigol o egwyddorion a damcaniaethau arwain a rheoli ansawdd arferion mewn lleoliadau iechyd meddwl aml-ddisgyblaethol.
- Arddangos dealltwriaeth gritigol o ddamcaniaethau ac egwyddorion arwain a rheoli newid ym maes iechyd meddwl.

## 2.2. Llythrennedd ymchwil

- .Ymchwilio a gwerthuso'n gritigol yr arferion gorau sy'n berthnasol i'ch prosiect seiliedig ar waith ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Defnyddio'r dechnegol briodol i chwilio am a gwerthuso'n gritigol y wybodaeth sy'n berthnasol i arweinyddiaeth ac ansawdd arferion mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

## 2.3. Hunan-ymwybyddiaeth a llythrennedd personol

- Dadansoddi a gwerthuso cymhwysedd a chynllunio a rheoli eich strategaeth ddatblygu bersonol eich hun drwy eich Cynllun Datblygiad Personol (CDP).
- Arddangos sgiliau dysgu, gan gynnwys dysgu'n annibynnol, datrys problemau a gwneud penderfyniadau.
- Manteisio i'r eithaf ar y rhwydwaith cymorth dysgu sydd o'ch cwmpas chi yn ystod y rhaglen e.e. cymheiriaid, ymgynghorydd academaidd.
- Darparu ystyriaeth gritigol ar ddysgu ac arferion unigolion a sefydliadol.

## 2.4. Llythrennedd digidol a gwybodaeth

- Cyflwyno dadleuon strwythuredig a chyflwyno gwaith a chanfyddiadau i eraill.

- Defnyddio technoleg briodol i chwilio am a gwerthuso gwybodaeth sy'n berthnasol i arweinyddiaeth ym maes iechyd meddwl.
- Ymglymu â gweithgareddau ar-lein, datblygu hyder mewn galluoedd e-ddysgu.

### 2.5. Dinasyddiaeth weithredol

- Y gallu i ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau i wella canlyniadau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl drwy ymgysylltu'n weithredol â materion cydraddoldeb, cynaladwyedd a chyfiawnder cymdeithasol.
- Y gallu i reoli timau sy'n cynnig canlyniadau da yn effeithiol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl o safbwyntiau cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a diwylliannol lleol a chenedlaethol.

## 3. Gofynion Mynediad

Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at rheolwyr tîm a darpar reolwyr mewn lleoliadau iechyd meddwl, gan gynnwys uwch ymarferwyr. Fel arfer, disgwylir i chi:

- Feddu ar gymhwyster proffesiynol cydnabyddedig mewn disgyblaeth berthnasol i gyflenwi gwasanaethau iechyd meddwl (e.e. nyrsio, therapi galwedigaethol, gwaith cymdeithasol ayb.
- Meddu ar o leiaf tair blynedd o brofiad ar ôl cymhwyso.
- Gweithio fel rheolwr rheng flaen mewn lleoliad iechyd meddwl yng Nghymru, neu wedi'ch nodi yn 'egin arweinydd' a'r gallu i gamu ymlaen yn eich gyrfa gyda chefnogaeth eich sefydliad cyflogi.

Disgwylir i'ch asiantaeth gyflogi gynnig cymorth priodol i chi tra byddwch ar y rhaglen, ac yn enwedig bod eich rheolwr llinell yn eich cefnogi drwy gydol y rhaglen drwy gynnig cyngor a chymorth ffurfiol ac anffurfiol, cytuno i - ac arsylwi – y prosiect seiliedig ar waith ac adolygu'r cynnydd ar asesiadau. Bydd gofyn trafod y cymorth angenrheidiol yn fanwl yn ystod y sesiwn gyfeiriadedd. Mae gofyn i chi a'ch rheolwr llinell a chyflogwr adolygu'r yn Atodiad 1 cyn ymrestru ar y rhaglen er mwyn cytuno i'r canlynol:

- Y bydd eich rheolwr llinell neu ddirprwy addas, yn eich cynorthwyo drwy gydol y rhaglen.
- Y bydd gennych amser rhydd ar gyfer hunan-astudiaeth a chwblhau asesiadau.
- Yr hysbysir IPC am unrhyw fynediad penodol neu anghenion cyfathrebu perthnasol i'r rhaglen sydd gennych.
- Y byddwch yn mynychu'r holl sesiynau a addysgir a'r holl sesiynau hwyluso cymorth y rhaglen h.y. tiwtorialau un-i-un.
- Y byddwch yn cwrdd â'r dedleins ar gyfer cyflwyno'r gwaith i'w asesu.
- Y cewch gennych fynediad i'r rhyngrwyd, i allu lawrlwytho'r adnoddau addysgu a dysgu, mynychu'r rhith sesiynau a chyflwyno'r gwaith asesedig, a chael cymorth i allu defnyddio technoleg gwybodaeth i ymgysylltu â Rhith Amgylchedd Dysgu (VLE) y Brifysgol (Moodle).

Mae IPC yn croesawu trafodaeth cyn gynted â phosibl ar unrhyw anghenion penodol o ran cyfathrebu neu fynediad sydd gan y myfyrwyr ac sy'n berthnasol i'r rhaglen hon. P'run a ydy'ch pryderon am y lleoliad neu'ch gwaith cwrs, cysylltwch â'r sefydliad IPC ipc_courses@brookes.ac.uk i nodi eich anghenion.

# 4. Addysgu, dysgu ac asesu

Mae'n werth ymgyfarwyddo â Rheoliadau Astudio / Regulations for Study y Brifysgol. Maen nhw'n darparu gwybodaeth am y graddau sy'n berthnasol i'ch asesiadau, terfynau amser a'r modd yr amcangyfrifir dosbarth eich gradd derfynol, yn ogystal â rheoliadau pwysig eraill a dolenni cyswllt i'r gweithdrefnau a'r cyfarwyddiadau perthnasol.

## 4.1. Addysgu a dysgu

Nod y rhaglen ydy hyrwyddo amgylchedd cefnogol lle mae myfyrwyr a thiwtoriaid yn cydweithio er mwyn datblygu dysgu. Mae strategaeth addysgu, dysgu ac asesu'r rhaglen yn adlewyrchu ei dull o fynd ati sy'n fyfyrwyr-ganolog, ac sy'n ffocysu ar arfer. Anogir cyfleoedd ar gyfer rhannu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y rhain o fewn y grŵp, defnyddir amrywiaeth o dechnegau addysgu a dysgu:

- Defnyddir gweithgareddau grŵp (e.e. setiau dysgu gweithredol a grwpiau) fel modd o rannu gwybodaeth, profiad a sgiliau a datblygu sgiliau critigol.
- Anogir hunan-ystyriaeth fel modd o gadw'r ffocws ar ddatblygu ymarfer yr unigolyn.
- Cewch gyfle i drafod manylion penodol eich astudiaeth achos a'ch gwaith prosiect er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i ddatblygiad eich sefydliad.
- Defnyddir sesiynau cymorth unigol er mwyn sicrhau eich bod yn gallu defnyddio'r hyn a ddysgoch yn effeithiol yn y gweithle.

Lluniwyd y modiwlau hyn i hyrwyddo lefel ôl-raddedig o sgiliau astudio, gan gynnwys y gallu i hunan-ystyried. Mae'r defnydd o ystyriaeth fel adnodd dysgu yn sylfaenol i'r rhaglen. Drwy gydol y rhaglen, byddwch yn adfyfyrio ar eich pen eich hun ac mewn grŵp yn ystod setiau dysgu gweithredol, grwpiau tiwtor ac o fewn sesiynau addysgu'r modiwl.

## 4.2. Asesu

Mae asesu yn cwmpasu pob barn a wnaed am eich gwaith a/neu'ch sgiliau, galluoedd a'ch cynnydd a'r adborth cysylltiedig perthnasol. Mae ffurfiau gwahanol i asesu. Dydy asesu ffurfiannol ddim yn cyfrannu at eich graddfa gyffredinol a'r prif nod ydy eich helpu i ddysgu h.y. rhoi adborth fel y gallwch ei ddefnyddio i wella'ch perfformiad yn y dyfodol. Gwaith wedi'i farcio ydy asesiadau crynodol ac mae'n cyfrif ar eich graddfa derfynol. Gwaith gwrs ydy'ch asesiadau crynodol: does dim arholiadau.

Cewch ddyddiad penodol ar gyfer cyflwyno'r tasgau asesu. Mae gwybodaeth am y tasgau asesu a deunyddiau dysgu eraill ar gael i chi i eu lawrlwytho o Rith Amgylchedd Dysgu (Moodle) y Brifysgol (VLE), gan gynnwys rhestrau darllen cyfredol y modiwl.

Darperir tiwtorialau unigol ar-lein gyda'ch Ymgynghorydd Academaidd / Academic Adviser i'ch helpu i ddeall y tasgau asesu crynodol, cytuno ar ffocws yr asesiadau crynodol a defnyddio gwybodaeth a sgiliau asesu effeithiol

## 4.3. Graddau, marcio a safoni

Y marc pasio ar gyfer pobl modiwl, ac felly ar gyfer yr holl ddyfarniad, ydy 50%, ac mae'r graddau canlynol yn berthnasol:

- Rhagoriaeth ydy 70% ac uwch
- Teilyngdod ydy 60 – 69%
- Pas ydy 50 – 59%
- Methu ydy 0 – 49%

Asesir eich gwaith ar sail canrannol a nodir gradd / grade. Eich marc ar gyfer pob modiwl fydd cyfartaledd wedi'i bwysoli o'r marciau a roddwyd i feini prawf yr asesiad. Mae matrics graddio modiwl ar gael i chi ei lawrlwytho o Rith Amgylchedd Dysgu (Moodle) y Brifysgol (VLE) sy'n diffinio lefelau perfformiad ar gyfer pob un o'r meini prawf asesu.

Byddwch yn derbyn adborth manwl ac adeiladol ar gyfer pob modiwl yn seiliedig ar y meini prawf. Rydyn ni'n ceisio cynnig yr adborth hwn i chi o fewn tair wythnos o'r dyddiad cyflwyno. Byddwn yn ysgrifennu sylwadau ar y templed sylwadau yn egluro'r hyn yr ydych wedi'i wneud yn dda a'r hyn y gellir ei wella ar gyfer darpar aseiniadau o fewn y rhaglen neu astudiaeth academaidd bellach. Os byddwch yn methu pasio aseiniad, byddwn yn ceisio egluro'r hyn sydd angen i chi ei wneud i lwyddo pan fyddwch yn ei ail-gyflwyno. Rydyn ni'n eich annog i ddefnyddio unrhyw adborth ar eich gwaith fel rhan o'r broses o ddatblygu'ch sgiliau academaidd.

Os na fydd eich cyflwyniad yn pasio y tro cyntaf, cewch ail-gyflwyno'r aseiniad unwaith eto. Bydd eich Ymgynghorydd Academaidd neu Weinyddydd Cwrs IPC, mewn ymgynghoriad â chi, yn gosod dedlein newydd ar gyfer ail-gyflwyno'ch aseiniad. Os byddwch yn llwyddo mewn ail-asesiad, y radd uchaf y gellir ei ddyfarnu ydy Pas o 50%. Bydd methu ag ail-gyflwyno'r gwaith neu fethu â phasio'r ail-asesiad yn golygu nad ydych yn pasio'r modiwl. Am ragor o wybodaeth, ewch i dudalen yr ail-gynnig - 'resits and retakes' - ar y we.

### 4.3.1. Tegwch wrth Asesu

Mae prosesau asesu / assessment processes y Brifysgol yn sicrhau bod yr asesiad yn drwyadl, o safon priodol ac yn deg, ac mae rôl y cymedrolwr mewnol a'r Arholwr Allanol yn allweddol yn hyn o beth, rôl sy'n sicrhau y gellir cymharu'r safonau a ddefnyddir i asesu myfyrwyr â safonau prifysgolion eraill a bod:

- Pob asesiad yn cael eu hysgrifennu mewn modd y gall myfyrwyr ddangos eu bod wedi cyflawni'r canlyniad dysgu ar gyfer y modiwl ac ar gyfer y rhaglen gyfan, a bod ystod, math ac amseriad asesiad wedi cael eu dewis yn ofalus i alluogi myfyrwyr i fod yn ddysgwyr annibynnol ac adfyfyriol.
- Gosodir y tasgau a'r cwestiynau gan Arweinydd y Modiwl, eu cymedroli'n fewnol (wedi'u gwirio gan aelod arall o'r staff) a'u hanfon at yr Arholwr Allanol er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer asesu canlyniadau dysgu'r modiwl a bod y cyfarwyddiadau a'r meini prawf marcio yn glir.
- Caiff gwaith y myfyrwyr ei farcio, yna, cymedrolir sampl o asesiadau gan gymedrolwr mewnol er mwyn sicrhau bod safonau marcio yn gyfartal ar gyfer yr holl fyfyrwyr. Yn dilyn cymedroli mewnol adolygir sampl o waith gan ein Harholwr Allanol fel y gall fonitro safonau a sicrhau bod y marcio yn gyson.
- Mae'r Brifysgol yn mabwysiadu polisi o farcio'n ddienw lle bynnag posibl. Fodd bynnag, yn y rhaglen hon, oherwydd natur yr asesiadau crynodol ni fydd yn bosibl i farcio'ch aseiniadau yn ddienw.
- Mae'r Pwyllgor Arholi yn cynnwys Cyfarwyddwr yr IPC, Arweinwyr Modiwlau, tiwtoriaid a'r Arholwr Allanol. Mae'n cwrdd yn gyson i gymeradwyo canlyniadau'r aseiniadau. Rôl y Pwyllgor Arholi ydy cymeradwyo'n derfynol y marciau unigol ar bob modiwl ac i argymell dyfarnu'r cymwysterau terfynol. Ar ôl cwblhau'r marcio, felly, nodir gradd dros dro ar eich cyfer ar yr amod bod y Pwyllgor Arholi yn ei gymeradwyo. Felly gallai canlyniadau cychwynnol gael eu newid.
- Ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd, mae'r Arholwr Allanol yn cyflwyno adroddiad i'r Brifysgol a gyhoeddir ar Safle Moodle y Rhaglen. Mae enw'r Arholwr Allanol a'r sefydliad lle caiff ei g/chyflogi yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ond diben hyn ydy sicrhau tryloywder ac nid ar gyfer cyfathrebu'n uniongyrchol â'r Arholwr Allanol.

## 4.4. Amgylchiadau Eithriadol

Dylech gyflwyno'ch aseiniadau erbyn y dedlein a osodwyd. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cydnabod y gallai, ar brydiau, anawsterau personol difrifol effeithio ar eich gallu i ymglymu â'ch astudiaethau ac effeithio'n negyddol ar eich perfformiad mewn asesiad. Nod y broses amgylchiadau eithriadol / exceptional circumstances process ydy sicrhau na fydd myfyrwyr dan anfantais annheg yn yr amgylchiadau hyn.

Yn gyffredinol, ni chaiff problemau TG ei hystyried yn sail dilys ar gyfer amgylchiadau eithriadol. Y rheswm dros hyn ydy bod disgwyl i fyfyrwyr gadw copi wrth gefn o'u gwaith.

Os bydd amgylchiadau eithriadol sydd tu allan i'ch rheolaeth ac sy'n effeithio ar eich astudiaeth ac ar eich perfformiad mewn asesiad, efallai gallech chi fod yn gymwys i ymestyn y dedlein neu gael cyfle i ail-wneud asesiad. Ceir gwybodaeth am y gwahanol fathau o lwfansau amgylchiadau eithriadol / types of exceptional circumstances allowances a'r gweithdrefnau / procedures i'w dilyn er mwyn gwneud cais ar dudalennau myfyrwyr y wefan. Gwnewch eich cais cyn gynted â phosibl. Peidiwch â'i gadael hi tan ar ôl i'r dedlein fynd heibio.

# 5. Yr hyn a ddisgwyliwn gennych

## 5.1. Polisi Oxford Brookes ar Ymrwymiadau a Rennir

**Gofynnwn i fyfyrwyr wneud y canlynol:**

- Mynychu pob sesiwn a amserlennir – mae'r cysylltiad rhwng presenoldeb a llwyddiant academaidd yn hysbys.
- Ymwneud â'r holl weithgareddau a'r cyfleoedd o ran addysgu, dysgu ac asesu
- Pan fyddwn ni'n gweithio ar-lein, rydyn ni'n disgwyl i fyfyrwyr gadw eu camerâu ymlaen a chyfrannu at drafodaethau ac ymarferion grŵp, yn union fel pe byddem yn gweithio gyda'n gilydd wyneb yn wyneb.
- Ysgwyddo cyfrifoldeb dros drefnu'ch amser i gwrdd â dedleins ac ymrwymiadau dysgu eraill.
- Mynychu sesiynau a amserlennir gyda'ch Ymgynghorydd Academaidd pan ofynnir i chi wneud hynny.
- Dod o hyd i gydbwysedd cynaliadwy rhwng eich gwaith Prifysgol a'ch ymrwymiadau gwaith.
- Ymgysylltu'n rhagweithiol â ffynonellau cymorth myfyrwyr e.e. eich Ymgynghorydd Academaidd o ran pob agwedd o'ch bywyd yn y Brifysgol a cheisio cyngor yn ddiymdroi.
- Cynorthwyo eich Cynrychiolwyr Myfyrwyr a chymryd rhan mewn systemau a fydd yn arwain at welliannau yn ansawdd yr addysgu ar dysgu,.

**Er mwyn gwella'r profiad dysgu i chi, bydd staff Prifysgol Oxford Brookes yn gwneud y canlynol:**

- Cyhoeddi canllawiau a llawlyfrau'r rhaglen ar Moodle ar ddechrau cwrs.
- Lle bo'n bosibl, darparu fersiynau cychwynnol o restrau darllen ar gyfer pob modiwl i fyfyrwyr trwy ddolen gyswllt i 'Talis Aspire' ar ddechrau'r cwrs. Nid oes disgwyl i restrau darllen fod yn ddi-gyfnewid gan y bydd llawer o arweinwyr modiwl yn eu diweddaru'n ddeinamig yn ystod y modiwl.
- Lle bo'n bosibl, sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn graddau ac adborth ar waith a asesir o fewn pymtheg diwrnod gwaith. Pan na fydd hyn yn bosibl, dylai arweinwyr modiwl hysbysu'r myfyrwyr o'r llinell amser disgwyliedig.
- Ymglymu â'r archwiliadau o wybodaeth y modiwl bob semester er mwyn sicrhau cywirdeb y wybodaeth asesu fydd yn cael ei gofnodi.
- Creu a chynnal tudalennau Moodle modiwl ymhob rhaglen gan ddefnyddio cynllun unffurf gyda gwybodaeth allweddol megis briffiau aseiniad, rhestrau darllen 'Talis Aspire', cynnwys wythnosol a dedleins a gedwir yn yr un lleoliad.
- Cynnal gwerthusiadau ganol modiwl a rhoi'r materion ar waith fel bo'n briodol. Cynnig adborth i fyfyrwyr am y camau gymerwyd ar y pwynt priodol nesaf.
- Cyfleu canlyniadau cyfraniadau Cynrychiolydd Myfyrwyr i gyfarfodydd pwyllgor pwnc mewn modd addas ac effeithiol e.e. drwy anfon e-bost i'r garfan, drwy dudalen agoriadol Moodle ac yn ddelfrydol, o fewn dwy wythnos i'r cyfarfod.

## 5.2. Arferion academaidd

Fel myfyriwr yn y Brifysgol, disgwyliwn i chi ymddwyn mewn modd proffesiynol gydag agwedd dda at ddysgu a'r symbyliad i ddysgu annibynnol gyda darllen a gweithgareddau tu allan i'r oriau a addysgir. Mae'ch modiwlau wedi cael eu dadelfennu'n wahanol oriau dysgu a gelwir nifer o oriau o fewn y modiwl hwn yn Astudiaeth Annibynnol ac i'w defnyddio i gwblhau prosiect seiliedig ar waith. Mae hyn yn golygu mai'ch cyfrifoldeb chi fydd cwblhau'r gwaith a ddisgwylir rhwng yr adegau a addysgir.

Mae help ar gael i chi os ydych cyn cael trafferth i reoli'ch amser. Gall eich Ymgynghorydd Academaidd eich cyfeirio at ein tîm Cymorth i Fyfyrwyr neu i'r Ganolfan Datblygiad Academaidd. Mae hefyd dudalennau ar-lein ar gael gyda phopeth sydd ei angen i chi ei wybod drwy dudalennau'r myfyrwyr ar y wefan.

Rhaid i chi arddangos eich integriti academaidd yn eich astudiaethau ac yn y gwaith a gynhyrchwch. Mae amrediad o gymorth a chyfarwyddyd ar gael i'ch helpu i wneud hyn, felly, sicrhewch eich bod yn ymwybodol o'r disgwyliadau cyn cychwyn ar asesiad. Ystyrir bod llên ladrad a ffurfiau eraill o dwyll yn faterion difrifol iawn gan fod gan hyn y potensial o danseilio gwerth dyfarniadau'r Brifysgol.

Adnodd ar y we ydy **Turnitin** sy'n cynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu arferion academaidd da wrth baratoi gwaith ysgrifenedig ar gyfer asesiad. Mae'r adnodd matsio testun hwn yn caniatáu i staff academaidd wirio gwaith myfyrwyr o ran ddefnyddio ffynonellau yn amhriodol neu am bosibilrwydd bod llên -ladrata wedi digwydd drwy ei gymharu â'r basau data a gaiff eu diweddaru'n barhaus (gan gynnwys tudalennau'r we a gwaith myfyriwr). Mae Turnitin yn cynhyrchu 'Adroddiad Gwreiddioldeb' ar gyfer pob darn o waith a gyflwynwyd, adroddiad sy'n nodi pob peth sy'n paru yn aseiniad y myfyriwr â ffynonellau seiliedig ar ei fas data, ac felly yn gallu cynnig cyfle i'r staff academaidd helpu myfyrwyr i ddatblygu dulliau dyfynnu cywir yn ogystal â diogelu integriti' academaidd myfyrwyr. Gellir defnyddio Turnitin fel rhan o ymchwiliad i achos honedig o gamymddygiad academaidd ond ei nod pennaf ydy cynorthwyo datblygiad academaidd myfyrwyr a gwella arferion academaidd da. Rhaid i chi gyflwyno testun eich aseiniad i Turnitin ac i gofnodi eich sgôr gwreiddioldeb ar dempled yr aseiniad. Mae polisi'r Brifysgol ar Turnitin ar gael yma ar https://www.brookes.ac.uk/students/your-studies/turnitin/.

Mewn achosion lle mae tiwtor yn amau llên ladrad mewn gwaith myfyriwr a phenderfynu ei gyfeirio at Dîm Ymchwiliad Myfyriwr a Thîm Datrysiad, rhaid i'r tiwtor lawrlwytho copi o adroddiad gwreiddioldeb Turnitin y myfyriwr a'i anfon yn uniongyrchol at y myfyriwr. Gwneir hyn i helpu'r myfyriwr baratoi os bydd rhaid cynnal ymchwiliad.

Felly, bydd Tîm Ymchwiliad Myfyriwr a Thîm Datrysiadau yn ymchwilio i bob honiad o dwyll, drwy weithdrefnau Ymddygiad Academaidd / Academic Conduct procedures. Gellir rhoi ystod o gosbau ar y rhai y cafwyd eu bod wedi torri'r rheoliadau gan gynnwys diarddel neu ddileu dyfarniad academaidd yn yr achosion mwyaf difrifol.

Os nad ydych yn orhyderus yng nghywirdeb eich Saesneg neu'ch Cymraeg ysgrifenedig, efallai y byddech am ofyn i rywun eich helpu drwy wirio'ch gwaith. Fodd bynnag, mae'n bwysig, wrth wneud hyn, na fyddwch yn camymddwyn yn

academaidd a allai olygu camau disgyblu.  Mae gan y Brifysgol ganllawiau ar brawf ddarllen / guidance about proofreading. Hefyd, os defnyddiwch wasanaeth prawf ddarllen neu wirio, mae'r Gyfadran Iechyd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn gofyn i chi ddatgan hynny ar flaen eich gwaith gan enwi'r unigolyn a wnaeth hyn i chi.

## 5.3. Deallusrwydd Artiffisial a'u ddefnydd yn yr asesiad hwn

Bu Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn y newyddion gryn dipyn yn ddiweddar, yn enwedig Chat GPT. Er bod y ddolen isod yn darparu rhywfaint o wybodaeth sylfaenol, rhaid i bob myfyriwr sy'n defnyddio AI ar gyfer eu haseiniad gwblhau'r cwrs 'Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial' sydd ar gael ar Moodle. Ar ôl ei gymryd, uwch-lwythwch eich Tystysgrif Cwblhau fel atodiad i'ch templed aseiniad.

Bydd y ddolen gyswllt hon yn eich arwain at ganllawiau pellach ar y defnydd o adnoddau AI yn Brookes / the use of AI tools at Brookes. A bydd y ddolen gyswllt hon yn eich arwain at y cwrs ar Moodle sef y Defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial / Use of Artificial Intelligence.

Os byddwch yn defnyddio unrhyw adnodd Deallusrwydd Artiffisial, rhaid i chi ddatgan hynny ar ffurflen ddatganiad Moodle wrth gyflwyno'ch gwaith. Mae hyn yn debyg i gyfeirnodi'ch ffynonellau yn eich rhestr gyfeirio. Yn y datganiad, dylech nodi pa adnoddau a ddefnyddioch chi a sut y defnyddioch yr adnoddau hynny yn eich aseiniad (er enghraifft, yr hyn roeddech yn ofyn i'r adnodd ei wneud). Dylech hefyd wirio gydag Arweinydd y Modiwl i sefydlu sut ac os y gellir defnyddio adnoddau Deallusrwydd Artiffisial yn eich asesiad gan fod yna ddefnydd priodol ac amhriodol o AI ar gyfer yr aseiniad hwn. Ni chaniateir defnydd twyllodrus o adnodd Deallusrwydd Artiffisial heb ei ddatgan, a gallai hynny arwain at ymchwiliad i ymddygiad academaidd.

## 5.4. Cyfrinachedd

Mae gofyn i IPC adrodd yn ôl i'w hasiantaeth gyflogi, a Gofal Cymdeithasol Cymru ar bresenoldeb myfyrwyr ar y rhaglen, eu cynnydd wrth gyflwyno aseiniadau a'r canlyniadau. Fodd bynnag, dim ond staff Prifysgol Oxford Brookes a'n Harholwr Allanol all gyrchu cynnwys gwaith asesedig ac ni fydd ar gael i eraill ei ddarllen tu allan i'r gymuned hon heb eich caniatâd. Bydd IPC yn annog myfyrwyr i ledaenu, drwy Gofal Cymdeithasol Cymru, grynodebau o brosiectau arloesol ac effeithiol yn seiliedig ar waith.

## 5.5. Polisi iaith

Bydd IPC yn sicrhau bod gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru ac HEIW o ran yr iaith Gymraeg yn cael eu diwallu wrth gyflenwi'r rhaglen hon. Bydd yr holl gyfarwyddiadau ysgrifenedig am asesiadau a'r deunydd ymuno ar gael yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Rydyn ni'n eich annog i gwblhau eich asesiadau yn y Gymraeg a bydd yr asesiadau ysgrifenedig yn cael eu marcio yn y Gymraeg yn hytrach na chael eu cyfieithu. Bydd cymorth academaidd unigol a hyfforddi ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# 6. Modiwl 1: Arwain a rheoli ar gyfer canlyniadau o ansawdd mewn gwasanaethau iechyd meddwl

Mae'r modiwl hwn yn cynnig y wybodaeth, y damcaniaethau a'r cysyniadau o arwain a rheoli gwasanaethau iechyd meddwl i'r myfyrwyr, gan ystyried yr agenda cenedlaethol a'r modelau a'r gyrwyr allweddol perthnasol i ansawdd ymarfer.  Mae'r modiwl yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau addysgu a dysgu a chewch gyfle i:

- Gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp (e.e. seminarau) er mwyn rhannu gwybodaeth, profiad a sgiliau.
- Gwerthuso'r aseiniad 360 gradd a llunio'ch cynllun datblygiad personol eich hun - asesiad ffurfiannol ond gorfodol.
- Cyfrannu at setiau dysgu gweithredol a thrafodaethau grŵp tiwtor i ddatblygu ymwybyddiaeth o agweddau ar arferion adfyfyriol.
- Asesu sampl o ddarn o waith yn erbyn cynllun asesu ar gyfer yr asesiad crynodol.
- Ysgrifennu aseiniad cysylltiedig â chynnwys modiwl yn ôl cynllun asesu a osodwyd.

## 6.1. Canlyniadau Dysgu'r Modiwl

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, byddwch yn arddangos priodoleddau Brookes ar lefel ôl-radd fel a ganlyn:

| Canlyniad Dysgu | Priodoledd Graddedigion |
|---|---|
| 1. Meddu ar wybodaeth drylwyr o ganllawiau a gofynion cenedlaethol allweddol ym maes iechyd meddwl a dealltwriaeth gritigol o'r goblygiadau i'ch tîm a/neu'ch sefydliad | Llythrennedd academaidd |
| 2. Arddangos dealltwriaeth gritigol o egwyddorion a damcaniaethau arwain a rheoli ansawdd ymarfer ym maes iechyd meddwl | Llythrennedd academaidd |
| 3. Amlygu sut i arwain a rheoli unigolion a thimau yn effeithiol er mwyn cyflenwi canlyniadau o ansawdd da ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl o safbwynt cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a diwylliannol lleol a chenedlaethol | Llythrennedd academaidd |
| 4. Y gallu i ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau i wella canlyniadau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl drwy ymglymu'n weithredol gyda materion tegwch, cynaladwyedd a chyfiawnder cymdeithasol | Dinasyddiaeth weithredol |

| Canlyniad Dysgu | Priodoledd Graddedigion |
|---|---|
| 5. Dadansoddi a gwerthuso cymhwysedd personol a rheoli eich strategaeth datblygiad personol chi eich hunan drwy eich Cynllun Datblygiad Personol | Hunan-ymwybyddiaeth gritigol a llythrennedd personol |

## 6.2. Cynnwys y Modiwl

Bydd cynnwys y modiwl hwn yn delio â'r canlynol:

**Yr Agenda Cenedlaethol a Pholisi Iechyd Meddwl**: deddfwriaeth, polisi a chyfarwyddyd cyfredol, effaith newid o fewn timau aml-ddisgyblaethol iechyd meddwl a phwysigrwydd dulliau'n seiliedig ar ganlyniadau o fynd ati i gynnig gwasanaeth iechyd meddwl.

**Modelau Arweinyddiaeth:** arweinyddiaeth dosturiol – arweinyddiaeth systemau ar y cyd, cynhwysol ac effeithiol. Arweinyddiaeth sefyllfaol, trawsnewidiol sy'n gallu addasu.

**Penderfynyddion a Diffiniadau Ansawdd:** sut gellir diffinio ansawdd, fframweithiau ansawdd a goblygiadau diffyg ansawdd i wasanaethau iechyd meddwl. Bydd hyn yn cynnwys gwerthfawrogiad o'r hyn, ym marn pobl sydd â phrofiad o iechyd meddwl, sy'n effeithiol wrth gyflenwi gwasanaethau.

**Hunan-asesu a hunan-adfyfyrio:** ystyriaeth gritigol o'ch dull chi eich hun a dull eich tîm o fynd ati i reoli ac arwain ansawdd ym maes iechyd meddwl.

## 6.3. Nodi'r Oriau Dysgu

Gallwch ddisgwyl treulio'r amser a nodir isod ar y modiwl hwn:

- Sesiynau a addysgir – 14 awr
- Cyfarfodydd cymorth unigol - 2 awr
- Astudiaeth annibynnol dan gyfarwyddyd – 76 awr
- Paratoi unigol – 8 awr
- Paratoir ar gyfer a chynnal aseiniad crynodol – 100 awr

Fel y gwelwch uchod, yn yr oriau a nodir, mae disgwyl i fyfyrwyr gwblhau dysgu ychwanegol a dysgu annibynnol ac ymchwil i fod yn sail i'w dysgu, cyfrannu at ddyddiau hyfforddi a'r aseiniad. Mae'n gyfrifoldeb ar bob myfyriwr gwblhau'r gwaith a'r ymchwil a ddisgwylir rhwng pob diwrnod hyfforddi a sesiynau cymorth.

## 6.4. Modiwl Asesu Tasg

Tasg crynodol y modiwl asesu ydy cynhyrchu aseiniad ysgrifenedig:

Cyflwynwch aseiniad ysgrifenedig o rhwng 2,500 a 3,500 o eiriau a fydd, yng nghyd-destun polisi cenedlaethol ac arferion gorau yn darparu dadansoddiad ac ystyriaeth o'ch dull arwain a rheoli a'ch dull eich hun o fynd ati i gyflenwi canlyniadau o

ansawdd ym maes iechyd meddwl. Elfen allweddol ydy dangos dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig i'r rhai hynny sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl. Cynorthwyir yr aseiniad hwn gan eich Cynllun Datblygiad Personol (CDP/PDP).

Disgwylir i chi gyfeirio at ddogfennau allweddol lleol a/neu cenedlaethol ac at lenyddiaeth berthnasol arall i ddangos eich darllen a'ch dealltwriaeth o egwyddorion a damcaniaeth rheoli ansawdd ymarfer a chanllawiau cenedlaethol.

Cyfyngir ar hyd yr aseiniad gan y nifer geiriau a osodir er mwyn cyfrannu at ddatblygu sgiliau ysgrifennu a sicrhau tegwch wrth asesu gwaith pawb. Rydyn ni felly yn gofyn i chi gwblhau'ch aseiniad o fewn y nifer geiriau a nodwyd ym mrîff yr aseiniad: rhwng 2,500 a 3,500 o eiriau. Ni chaniateir gwyro yn uwch nag uchafswm y geiriau nac yn is na'r lleiafswm geiriau. Os ydych yn pryderu, dylech drafod hyn gyda'r Tiwtor Arweiniol cyn cyflwyno'r gwaith. Dylid nodi nifer derfynol y geiriau yn glir ar dempled yr aseiniad.

Mae'r nifer geiriau yn cyfeirio at brif gorff eich aseiniad a dydy hyn ddim yn cynnwys teitl yr aseiniad, y rhestr gyfeirio nac unrhyw atodiad. Mae'r nifer geiriau yn cynnwys penawdau ac is-benawdau, troednodion, tablau a dyfyniadau yn y testun ond nid diagramau. Ni chaiff atodiadau eu hunain eu marcio. Fodd bynnag, ystyrir defnydd amhriodol o atodiadau wrth ddyfarnu'r marc terfynol.

Mae templed aseiniad sy'n rhoi cyfarwyddyd am feini prawf yr aseiniad ar gael i chi ei lawrlwytho o Rith Amgylchedd Dysgu VLE) y Brifysgol (Moodle). Rydyn ni'n gofyn i chi gyflwyno'ch gwaith yn electronig ar dempled yr aseiniad drwy Rith Amgylchedd Dysgu y Brifysgol (Moodle). Rydyn ni hefyd yn gofyn i chi gyflwyno testun cynnwys yr aseiniad i Turnitin ac i riportio sgôr gwreiddioldeb Turnitin ar dempled yr aseiniad. Adnodd ar y we ydy Turnitin sy'n cefnogi arfer academaidd da wrth baratoi gwaith ysgrifenedig i'w asesu. Mae'r adnodd matsio testun hwn yn caniatáu i staff academaidd wirio a ydy ffynonellau yn cael eu defnyddio'n amhriodol mewn aseiniadau neu a oes posibilrwydd o lên ladrad drwy ei gymharu â basau data sy'n cael eu diweddaru'n gyson (yn cynnwys tudalennau gwefan a gwaith myfyrwyr eraill).

Cewch adborth ar dempled eich aseiniad a fydd yn dangos pa mor dda ydy'ch gwaith a chynnig crynodeb o gryfderau a gwendidau eich gwaith.

## 6.5. Hanes dilysu'r Modiwl a'r newidiadau a wnaed i'r modiwl mewn ymateb i adborth myfyrwyr ac eraill

Cymeradwywyd y modiwl hwn fis Mawrth 2024. Ni wnaed unrhyw newidiadau hyd yma.

# 7. Modiwl 2: Hyrwyddo ac ymgorffori gwella ansawdd ac arfer seiliedig ar dystiolaeth yn y gwasanaethau iechyd meddwl

Mae'r modiwl hwn yn cynnig i fyfyrwyr sail gwybodaeth drylwyr a sylfaen ym mhwysigrwydd defnyddio tystiolaeth effeithiol, ymchwil ac arferion gorau wrth arwain a rheoli arferion ym maes iechyd meddwl. Sail y modiwl hwn ydy datblygu sgiliau gwerthuso'n gritigol a chymhwyso tystiolaeth i ddatrys y sialensiau sy'n gynhenid yn arferion arweinyddiaeth iechyd meddwl. Mae'r modiwl hwn yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau addysgu a dysgu a chewch gyfle i wneud y canlynol:

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp (e.e. seminarau, grwpiau tiwtor) er mwyn rhannu gwybodaeth, profiad a sgiliau.
- Cyfrannu at setiau dysgu gweithredol i ddatblygu ymwybyddiaeth o agweddau ar arferion adfyfyriol.
- Gwerthuso hunan-asesiad o anghenion asesu dysgu a nodwyd ym Modiwl Un i gadw golwg ar eich anghenion o ran datblygiad proffesiynol parhaus.
- Asesu sampl o aseiniadau yn erbyn y cynllun asesu ar gyfer asesiad crynodol.
- Ymgymryd ag astudiaeth achos ar sail tystiolaeth a luniwyd ar sail ymchwil, arferion gorau i reoli ac arwain ansawdd arfer yn dda ym maes iechyd meddwl.

## 7.1. Canlyniadau dysgu'r Modiwl

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, byddwch yn dangos y priodoleddau Brookes canlynol ar lefel ôl-raddedig:

| Canlyniadau Dysgu | Priodoledd Graddedigion |
|---|---|
| 1. Arddangos dealltwriaeth gritigol o ystod o dechnegau i ymgorffori arferion yn seiliedig ar dystiolaeth o fewn lleoliadau iechyd meddwl e.e. ymchwil cyfredol ac arferion gorau, canlyniadau arolwg | Llythrennedd academaidd |
| 2. Gwerthuso arferion cyfredol yn gritigol o ran eich astudiaeth achos sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys y defnydd o ddata ac adnoddau digidol sydd ar gael o fewn lleoliadau iechyd meddwl. | Llythrennedd ymchwil |
| 3. Arddangos dealltwriaeth gritigol o gyd-gynhyrchu fel mecanwaith pwerus mewn ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'i ddefnydd ym maes gwasanaethau iechyd meddwl | Dinasyddiaeth weithredol |

| Canlyniadau Dysgu | Priodoledd Graddedigion |
|---|---|
| 4. Adfyfyrio'n gritigol ar eich gallu a'ch cymhwysedd eich hun a gallu a chymhwysedd eich sefydliad i hyrwyddo ac ymgorffori dull seiliedig ar dystiolaeth o fynd ati. | Hunan-ymwybyddiaeth gritigol a llythrennedd personol |

## 7.2. Cynnwys y modiwl

Bydd cynnwys y modiwl yn cynnwys y canlynol:

**Hyrwyddo ac Ymgorffori Arferion yn seiliedig ar Dystiolaeth**: darpar rwystrau i gyrchu, cymhathu a chymhwyso sail tystiolaeth berthnasol ynghyd â strategaethau ymarferol i oresgyn y rhwystrau hyn, gan gynnwys: ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus; rhannu gwybodaeth ymchwil gyfredol; caffael a defnyddio sgiliau arfarnu'n gritigol; amgylchedd dysgu; a chyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth. Nodi a defnyddio adnoddau i ymgorffori arferion seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys y defnydd o lwybrau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

**Cyd-gynhyrchu a Chymhwyso Profiad ym maes Iechyd Meddwl:** nodi agweddau o gyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth a'r modd y gellir ymgorffori a chymhwyso hyn. Egwyddorion cenedlaethol o ymglymiad y cyhoedd a safonau cyfranogi Cymru. Ystyried y cysyniad o gyd-gynhyrchu a chyfranogiad ystyrlon.

**Rheoli Perfformiad, gan gynnwys Rheoli Data:** Cyflwyniad i reoli perfformiad a chysyniadau'r allbynnau a chanlyniadau. Cyflwyniad i ddull seiliedig ar safonau o fynd ati i werthuso perfformiad a'r rhwystrau rhag ei gymhwyso gan gynnwys: cyllid, data gwallus; amseroldeb gofynion riportio a diffyg cymhelliad i fynd i'r afael ag arferion gwael. Casglu, cyfleu a defnyddio data a gwybodaeth glinigol i gefnogi gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd meddwl (gwybodeg glinigol), sicrhau bod systemau TG yn gweithio yn ddibynadwy, cefnogi darparu arferion uchel eu hansawdd i weithwyr rheng flaen a chydymffurfio â rheoliadau cenedlaethol llywodraethiant ym maes gwybodaeth.

## 7.3. Nodi'r Oriau Dysgu

Gallwch ddisgwyl treulio'r amser a nodir isod ar y modiwl hwn:

- Sesiynau a addysgir - 14 awr
- Cyfarfodydd cymorth unigol - 2 awr
- Paratoi unigol – 8 awr
- Astudiaeth annibynnol dan gyfarwyddyd – 76 awr
- Paratoi ar gyfer ac ymgymryd ag aseiniad crynodol– 100 awr

## 7.4. Modiwl Asesu Tasg

Tasg asesiad crynodol y modiwl ydy:

Cyflwyno aseiniad ysgrifenedig o rhwng 2,500 a 3,500 o eiriau a fydd yn egluro ac yn ystyried achos astudiaeth seiliedig ar dystiolaeth sy'n ystyried arloesedd wrth gyflenwi gwasanaethau iechyd meddwl. Dylai'r astudiaeth achos gyfeirio at weithgaredd o fewn ffrâm amser y rhaglen.

Cefnogir yr aseiniad gan dempled ymchwil cyflawn sy'n asesu'n gritigol y dystiolaeth/yr arferion gorau yr ydych wedi'u hystyried.

Disgwylir i chi gyfeirio at ddogfennau allweddol lleol a/neu rai cenedlaethol ac at lenyddiaeth academaidd berthnasol i ddangos eich bod wedi darllen a / neu ymchwilio yn ehangach.

Cyfyngir ar hyd yr aseiniad gan y nifer geiriau a osodir er mwyn cyfrannu at ddatblygu sgiliau ysgrifennu a sicrhau tegwch wrth asesu gwaith pawb. Rydyn ni felly yn gofyn i chi gwblhau'ch aseiniad o fewn y nifer o eiriau a nodwyd ym mriff yr aseiniad: rhwng 2,500 a 3,500 o eiriau. Ni chaniateir gwyro yn uwch nag uchafswm y geiriau nac yn is na'r lleiafswm geiriau. Os ydych yn pryderu, dylech drafod hyn gyda'r Tiwtor Arweiniol cyn cyflwyno'r gwaith. Dylid nodi nifer derfynol y geiriau yn glir ar dempled yr aseiniad

Mae'r nifer geiriau yn cyfeirio at brif gorff eich aseiniad a dydy hyn ddim yn cynnwys teitl yr aseiniad, y rhestr gyfeirio nac unrhyw atodiad. Mae'r nifer geiriau yn cynnwys penawdau ac is-benawdau, troednodion, tablau a dyfyniadau yn y testun, ond nid diagramau. Ni chaiff yr atodiadau eu hunain eu marcio. Fodd bynnag, ystyrir defnydd amhriodol o atodiadau wrth ddyfarnu'r marc terfynol.

Mae templed aseiniad sy'n rhoi cyfarwyddyd am feini prawf yr aseiniad ar gael i chi ei lawrlwytho o Rith Amgylchedd Dysgu (VLE) y Brifysgol (Moodle). Rydyn ni'n gofyn i chi gyflwyno'ch gwaith yn electronig, ar dempled yr aseiniad, drwy Rith Amgylchedd Dysgu y Brifysgol (Moodle). Cewch adborth ar dempled eich aseiniad a fydd yn dangos pa mor dda ydy eich gwaith a chrynhoi cryfderau a gwendidau eich gwaith.

## 7.5. Hanes dilysu modwl a'r newidiadau a wnaed i'r modiwl mewn ymateb i adborth myfyrwyr ac eraill

Cymeradwywyd y modiwl hwn fis Mawrth 2024. Ni wnaed unrhyw newidiadau hyd yma.

# 8. Modiwl 3: Arwain datblygiadau a newid yn y gwasanaethau iechyd meddwl

Mae'r modiwl hwn yn ystyried y damcaniaethau a'r sgiliau sydd eu hangen i reoli timoedd ar adegau o drawsnewid a newid, gan ystyried y berthynas a'r rolau mewn lleoliadau aml-ddisgyblaethol. Mae'n ystyried damcaniaethau ac egwyddorion newid, yn ogystal ag ymatebion unigolion a thimau ac yn darparu adnoddau defnyddiol ar gyfer gweithio o fewn gwasanaethau iechyd meddwl aml-ddisgyblaethol ar gyfer oedolion a phlant. Mae'r modiwl yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau addysgu a dysgu a chewch gyfle i wneud y canlynol:

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp (e.e. seminarau ac astudiaethau achos) er mwyn rhannu gwybodaeth, profiad a sgiliau.
- Asesu sampl o aseiniadau yn erbyn cynllun asesu ar gyfer yr asesiad crynodol.
- Cyflwyno amlinelliad a chynllun prosiect ffurfiannol, ond gorfodol, a chynllun prosiect o'r darpar brosiect y byddwch yn eu defnyddio ar gyfer yr asesiad crynodol.
- Cyflwyno prosiect seiliedig ar waith sy'n ystyried materion perthnasol i'r modiwl hwn ac i gynnwys modiwlau blaenorol.
- Ysgrifennu aseiniad perthnasol i'ch prosiect sy'n dangos eich dysgu a'ch datblygiad yn arwain a rheoli newid yn y gwasanaethau iechyd meddwl.

## 8.1. Canlyniadau Dysgu'r Modiwl

Ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus, byddwch yn arddangos priodoleddau Brookes ar lefel ôl-radd fel a ganlyn:

| Canlyniadau Dysgu | Priodoledd Graddedigion |
|---|---|
| 1. Gwerthuso'n gritigol fanteision gwahanol ddulliau o arwain a rheoli o ran rheoli newid o fewn gwasanaethau iechyd meddwl. | Llythrennedd academaidd |
| 2. Arddangos dealltwriaeth gritigol o'r modd i arwain a rheoli o fewn ac ar draws sefydliadau, timoedd a phartneriaethau. | Llythrennedd academaidd |
| 3. Arddangos ymwybyddiaeth gritigol o gymhlethdod safbwyntiau, diwylliannau a gwerthoedd amrywiol mewn amgylchedd cyfnewidiol ac aml-ddisgyblaethol. | Dinasyddiaeth weithredol |
| 4. Cyflwyno syniadau a dadleuon strwythuredig sy'n cyfleu gwaith eich prosiect a'ch amcanion i eraill drwy gyflwyniad a asesir. | Llythrennedd digidol a gwybodaeth |

| Canlyniadau Dysgu | Priodoledd Graddedigion |
|---|---|
| 5. Ystyried yn gritigol eich gallu a'ch cymhwysedd chi eich hun a gallu a chymhwysedd eich sefydliad i arwain datblygiadau a newid | Hunan-ymwybyddiaeth critigol a llythrennedd personol |

## 8.2. Cynnwys y Modiwl

Bydd cynnwys y modiwl hwn yn delio â'r canlynol:

**Arwain a Chynorthwyo Datblygiad a Newid:** damcaniaeth ac egwyddorion newid sy'n berthnasol i sefydliadau iechyd meddwl. Ffactorau sy'n cynorthwyo arweinyddiaeth a rhwystrau rhag newid sy'n ymddangos o fewn timau a hinsoddau diwylliannol. Rheoli newid drwy ddatrysiad ac adolygu'r newid mewn gwasanaeth drwy ymglymu defnyddwyr gwasanaeth, tîm a sefydliad.

**Arweinyddiaeth Tîm ym maes Iechyd Meddwl**: Rôl timau iechyd meddwl aml-ddisgyblaethol a'r ffactorau statudol, rheoleiddiol a chymdeithasol-ddiwylliannol sy'n dylanwadu ar eu swyddogaeth. Cryfderau a gwendidau dulliau o fynd ati i reoli pobl a thimau, a'r elfennau allweddol ar gyfer rheoli newid. Ymwybyddiaeth o wahanol ddulliau a'u haddasrwydd mewn sefyllfaoedd gwahanol i beri i newid ddigwydd.

**Gwella a Rheoli Perfformiad Timau ac Unigolion:** rôl goruchwyliaeth effeithiol fel ymyriad ar gyfer trawsnewid/newid ansawdd ymarfer a gwella perfformiad yn ogystal â bod yn ffactor allweddol wrth gadw staff medrus – goruchwyliaeth a gwerthuso unigol, goruchwyliaeth grŵp a thechnegau datblygu tîm. Dulliau o fynd ati i reoli perfformiad gwael yn effeithiol.

## 8.3. Nodi'r Oriau Dysgu

Gallwch ddisgwyl treulio'r amser a nodir isod ar y modiwl hwn:

- Sesiynau a addysgir - 14 awr
- Cyfarfodydd cymorth unigol neu grwpiau bach - 2 awr
- Paratoi unigol – 10 awr
- Astudiaeth annibynnol dan gyfarwyddyd - 74 awr
- Paratoi ar gyfer ac ymgymryd ag aseiniad crynodol– 100 awr

## 8.4. Asesu Modiwl

Tasg asesiad crynodol y modiwl ydy:

Ymgymryd â phrosiect seiliedig ar flaenoriaeth datblygiad o fewn eich tîm neu wasanaeth. Cyflwyno aseiniad ysgrifenedig sy'n egluro ac ystyried eich arweinyddiaeth a'ch rheolaeth o newid neu arloesedd. Ategir achos busnes y prosiect gan gyflwyniad asesedig i'ch cydweithwyr ar y rhaglen. Disgwylir, oni bai

bod amgylchiadau eithriadol iawn, y bydd pob myfyriwr yn rhoi cyflwyniad ar yr astudiaeth achos.

Dylid gosod y prosiect yng nghyd-destun polisi cenedlaethol a lleol ac arferion gorau, a rhaid cyflwyno cynllun prosiect i ategu hyn. Rhaid bod eich rheolwr llinell fod wedi derbyn bod y prosiect yn briodol i anghenion y tîm neu'ch sefydliad a'i fod wedi'i gyflwyno o fewn ffrâm amser y rhaglen. Disgwylir gwybodaeth ategol, drwy atodiadau, sy'n rhoi tystiolaeth o weithgareddau y cynhalioch chi ar gyfer y prosiect a rhoi arferion da ar waith, gan gynnwys datganiad arsylwi gan eich rheolwr llinell. Disgwylir cyfeiriadau at ddogfennau allweddol lleol a chenedlaethol a llenyddiaeth academaidd berthnasol er mwyn dangos eich bod wedi darllen ac ymchwilio'n ehangach.

Cyfyngir ar hyd yr aseiniad gan y nifer geiriau a osodir er mwyn cyfrannu at ddatblygu sgiliau ysgrifennu a sicrhau tegwch wrth asesu gwaith pawb. Rydyn ni felly yn gofyn i chi gwblhau'ch aseiniad o fewn y nifer eiriau a nodwyd ym mrîff yr aseiniad: rhwng 3,000 a 4,000 o eiriau. Ni chaniateir gwyro yn uwch nag uchafswm y geiriau nac yn is na'r lleiafswm geiriau. Os ydych yn pryderu, dylech drafod hyn gyda'r Tiwtor Arweiniol cyn cyflwyno'r gwaith. Dylid nodi nifer derfynol y geiriau yn glir ar dempled yr aseiniad.

Mae'r nifer geiriau yn cyfeirio at brif gorff eich aseiniad a dydy hyn ddim yn cynnwys teitl yr aseiniad, y rhestr gyfeirio nac unrhyw atodiad. Mae'r nifer geiriau yn cynnwys penawdau ac is-benawdau, troednodion, tablau a dyfyniadau yn y testun ond nid diagramau. Ni chaiff yr atodiadau eu hunain eu marcio. Fodd bynnag, ystyrir defnydd amhriodol o atodiadau wrth ddyfarnu'r marc terfynol.

Bydd disgwyl i chi gyflwyno amlinelliad o'r prosiect a chynllun y prosiect i Rith Amgylchedd Dysgu (Moodle) y Brifysgol (VLE) cyn dyddiad cyflwyno'r asesiad crynodol.

Mae templed aseiniad sy'n rhoi cyfarwyddyd am feini prawf yr aseiniad ar gael i chi ei lawrlwytho o Rith Amgylchedd Dysgu (VLE) y Brifysgol (Moodle). Rydyn ni'n gofyn i chi gyflwyno'ch gwaith yn electronig, ar dempled yr aseiniad, drwy Rith Amgylchedd Dysgu y Brifysgol (Moodle). Cewch adborth ar dempled eich aseiniad a fydd yn dangos pa mor dda ydy eich gwaith a chrynhoi cryfderau a gwendidau eich gwaith

## 8.5. Hanes dilysu modiwl a'r newidiadau a wnaed i'r modiwl mewn ymateb i adborth myfyrwyr ac eraill

Cymeradwywyd y modiwl hwn fis Mawrth 2024. Ni wnaed unrhyw newidiadau hyd yn hyn.

# 9. Eich llais

Mae gwerthuso profiad myfyrwyr yn fanwl yn elfen bwysig a pharhaus o'r rhaglen. Felly, caiff y rhaglen ei monitro'n gyson i gofnodi eich barn. Defnyddir ffurflen werthuso ffurfiol yn ystod pob modiwl yn ogystal â chyfweliadau anffurfiol parhaus i drafod cynnwys modiwl, deunyddiau, ymarferion, gweinyddiaeth, lleoliad neu unrhyw fater arall. Mae gwerthuso modiwl yn gyfle i chi gynnig sylwadau ar agweddau cadarnhaol a negyddol y modiwl, perfformiad y staff addysgu a chynllun y modiwl. Mae gwerthuso yn ein helpu i wirio'r profiad addysgu a'r dysgu ac i wella ansawdd y rhaglen.

Mae rheolaeth y rhaglen yn gyfrifoldeb tîm rheoli'r rhaglen a arweinir gan Gyfarwyddwr IPC. Bydd y tîm yn cynnal cyfarfodydd mewnol rheolaidd i drafod unrhyw newidiadau brys a rheolaeth y rhaglen, a thrafodir canlyniadau y gwerthusiadau gan y Pwyllgor Pwnc.

Pwyllgor Arholi sy'n gyfrifol am gynnal safon academaidd y rhaglen. Rydyn ni'n derbyn adroddiad blynyddol gan ein Arholwr Allanol sy'n samplo gwaith myfyrwyr ac yn mynychu cyfarfodydd ein Pwyllgor Arholi. Cynhelir cyfarfod Adolygiad Blynyddol, a'i gadeirio gan Gyfarwyddwr IPC gan ddod â deunyddiau'r cyfarfodydd hyn a deunyddiau gwerthuso ynghyd. Anfonir cofnodion y cyfarfod hwn at Bwyllgor Safonau a Gwelliant Academaidd y Gyfadran. Yn ogystal â phroses Adolygiad Blynyddol y Gyfadran, bydd y Brifysgol yn cynnal Adolygiad Cyfnodol o'r rhaglen er mwyn asesu effeithiolrwydd y rhaglen i alluogi myfyrwyr i gyflawni'r dysgu a fwriadwyd.

Bydd Cyfarwyddwr IPC neu Arweinydd y Modiwl yn adrodd yn ôl i Bwyllgor Rheoli Rhaglenni Cenedlaethol (NPMC) yn rheolaidd. Mae aelodaeth NPMC yn cynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC), Penaethiaid Gwasanaethau, Rheolwyr Datblygu Gweithlu o fewn awdurdodau lleol a Gofal Cymdeithasol Cymru.

## 9.1. Cynrychiolaeth myfyrwyr

Rydyn ni'n annog myfyrwyr i gymryd rhan yn eu cwrs drwy system o Gynrychiolaeth Myfyrwyr. Bydd myfyrwyr sydd wedi cwblhau'r Dystysgrif hon yn ystod y 12 mis blaenorol yn cael eu gwahodd i grŵp ffocws blynyddol lle gallwch siarad â Chyfarwyddwr y Cwrs a chynnig eich mewnbwn i ddatblygiad parhaus y cwrs hwn. Bydd Arweinydd eich Modiwl yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi.

Bydd cyfle gennych hefyd i gyfrannu at ddatblygiad y cwrs a rhoi adborth i Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) a Gofal Cymdeithasol Cymru (SCW). Bydd Arweinydd eich Modiwl yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi.

## 9.2. Cwynion ac apeliadau

Ein gobaith ydy y bydd eich amser gyda ni yn un hapus ac y bydd eich rhaglen astudiaeth yn cwrdd â'ch disgwyliadau, ond rydyn i'n deall y bydd pethau weithiau'n mynd o'i le ac rydyn ni'n croesawu'r cyfle i'w cywiro. Os bydd agwedd o'n

darpariaeth yn gostwng yn is na'n disgwyliadau, rhowch wybod i aelod o staff IPC. Os na allan nhw ddatrys y broblem drwy'r gweithdrefnau lleol hyn, mae gan y Brifysgol broses achwynion ffurfiol / *complaints process* lle gall y Tîm Ymchwiliad a Datrysiad Myfyrwyr ymchwilio i'ch cwyn.

Apêl academaidd / *academic appeal* ydy apêl yn erbyn penderfyniad pwyllgor arholi a gellir ei wneud ar sail gyfyngedig (heblaw am farn academaidd). Os ydych yn credu na chynhaliwyd asesiad yn unol â rheoliadau'r rhaglen a bod ganddoch chi dystiolaeth bod un o'r seiliau yn y berthnasol, gallwch apelio drwy'r weithdrefn a welwch ar dudalennau Ymchwiliad a Datrysiad Myfyrwyr / Student Investigation and Resolution ar y wefan. Mae Gwasanaeth Cyngor Undeb Brookes / Brookes Union Advice Service yn cynnig cyngor annibynnol ar lawer o agweddau o'ch profiad fel myfyriwr/wraig, gan gynnwys y dull o wneud cwyn neu gyflwyno apêl academaidd.

# 10. Cymorth Myfyrwyr

## 10.1. Eich tîm addysgu a gweinyddwyr

### 10.1.1. Cyfarwyddwr Cwrs IPC

Cyfarwyddwr IPC - Fiona Richardson sy'n gyfrifol am reoli rhaglen cwrs IPC yn gyffredinol gan gynnwys pryderon a chwynion a gellir cysylltu â hi drwy ffonio ar IPC 01865 790312 a thrwy anfon e-bost at frichardson@brookes.ac.uk.

### 10.1.2. Gweinyddwyr Cwrs IPC

Gweinyddir holl gyrsiau IPC gan Weinyddwyr y Cwrs - Sasha Carter a Lynne Bennett a gellir cysylltu â nhw drwy ffonio 01865 534093 a thrwy anfon e-bost at ipc_courses@brookes.ac.uk.

### 10.1.3. Arweinydd Modiwl

Arweinydd y rhaglen hon ydy'r Uwch Ymgynghorydd a'r tiwtor sef Caroline Dowson. Caroline sy'n gyfrifol am gydlynu a chyflenwi rhaglen a gellir cysylltu â hi drwy ffonio 01865 790312 a thrwy anfon e-bost at carolinedowson@brookes.ac.uk.

### 10.1.4. Ymgynghorydd Academaidd

Neilltuir Ymgynghorydd Academaidd / Academic Adviser ar eich cyfer ar ddechrau eich cwrs. Mae eich Ymgynghorydd Academaidd yn ffynhonnell allweddol cyngor a chyfarwyddyd academaidd drwy gydol eich cwrs . Gofynnwch i'ch Ymgynghorydd Academaidd os ydych yn ansicr am unrhyw un o ofynion y rhaglen hon neu os bydd sefyllfaoedd yn codi sy'n effeithio ar eich gallu i astudio neu wneud gwaith i'w asesu. Cewch ddau diwtorial rhithiol gyda'ch Ymgynghorydd Academaidd fesul modiwl.

## 10.2. Cymorth astudio

Yn ogystal â'r tîm yn IPC, mae gennym ystod o dimau gwasanaethau proffesiynol, sydd wedi ymrwymo i helpu ein myfyrwyr i fanteisio i'r eithaf ar eu profiad Prifysgol ac i allu cyrraedd eu cyflawniadau gorau posibl.

Gall Tîm Cyngor Canolog y Myfyrwyr / Student Central Advice Team helpu gyda phob math o ymholiadau; a gwybodaeth am brosesau a gweithdrefnau yn gysylltiedig â'ch cwrs, megis yr hyn sydd rhaid ei wneud os oes angen i chi gael ysbaid o egwyl o'r gwaith astudio.

Gall y Ganolfan Datblygiad Academaidd / Centre for Academic Development gynnig cyngor a chyfarwyddyd i'ch galluogi i astudio'n effeithiol a gwneud eich gorau mewn asesiad. Maen nhw'n cynnig tiwtorialau un i un ac adnoddau ar-lein a gweithdai ar amrediad o sgiliau astudio academaidd a fydd yn eich helpu i fynegi eich syniadau eich hun a chyrraedd eich potensial academaidd llawn. Mae'n werth pori yn nhudalen hafan y Ganolfan Datblygiad Academaidd / Centre for Academic Development home page i gael syniad o'r hyn sydd ganddyn nhw i'w gynnig. Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnig cwrs Moodle ar-lein ar integriti academaidd / academic integrity fel y gallwch ddysgu am arferion academaidd da ac osgoi gwneud camgymeriadau cyffredin a allai arwain at honiadau o lên ladrad.

Os oes gennych anabledd neu anhawster dysgu penodol sy'n golygu y gallai fod hawl gennych i addasiadau rhesymol i'ch galluogi i gwblhau eich asesiadau yn deg, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cymorth Cynhwysol / Inclusive Support Service am asesiad o'ch anghenion.

Byddwch yn rhagweithiol a manteisiwch ar y cyngor a'r cyfarwyddyd sydd ar gael – peidiwch ag aros nes i chi deimlo eich bod yn cael trafferth i ymdopi â'ch astudiaethau. Mae gennym rwydwaith cymorth helaeth ar gyfer myfyrwyr yn Brookes - cewch ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael ar dudalen Cymorth Myfyrwyr / Student Support page.

## 10.3. Adnoddau Dysgu

### 10.3.1. Rhith Amgylchedd Dysgu (Moodle) ac E-bost

Ym Mhrifysgol Oxford Brookes, rydyn ni'n defnyddio Rhith Amgylchedd Dysgu (VLE), a yrrir gan Moodle, i ganiatáu i chi ymglymu mewn dysgu mewn lleoliadau, ar adegau ac ar y cyflymder sy'n eich siwtio chi. Lluniwyd Moodle i ategu eich seminarau wyneb yn wyneb a byddwch yn gallu:

- Cyrchu deunyddiau dysgu eich cwrs
- Dod o hyd i help
- Defnyddio fforymau trafod ar-lein
- Cyflwyno'ch gwaith i'w asesu, gan gynnwys cynlluniau prosiect ac aseiniadau
- Derbyn adborth ar eich aseiniad(au)

Ceir cyfres o fideos a dogfennau i'ch helpu i ddefnyddio Brookes Rhithiol (Virtuwl) sydd ar gael fan hyn: Getting Started with Moodle.

Pan fyddwch yn ymrestru gyda Phrifysgol Oxford Brookes cewch gyfrif e-bost Gmail yn awtomatig. Mae hyn yn golygu bydd gennych gyfeiriad e-bost @Brookes.ac.uk ac yn gallu cyrchu cyfres o 'Apps' Google megis Calendr Google.

Eich enw defnyddiwr fydd eich rhif myfyriwr Brookes ac anfonir eich cyfrinair atoch chi. Byddwch yn derbyn adborth ar eich gwaith drwy Moodle a chewch rybudd o hyn drwy e-bost awtomatig i'ch cyfrif e-bost Brookes. Bydd angen i chi naill ai edrych ar eich cyfrif e-bost Brookes neu ei anfon ymlaen yn awtomatig at e-bost arall yr ydych yn ei ddefnyddio. Am gymorth ewch i: https://www.brookes.ac.uk/it/.

### 10.3.2. Llyfrgell

Cewch ddefnyddio holl gyfleusterau Llyfrgell Prifysgol Oxford Brookes ar-lein ac ar y safle. Mae gan lyfrgelloedd ar y safle ystod helaeth o destunau a chyhoeddiadau am iechyd, lles a gofal cymdeithasol. Mae'r llyfrgell hefyd yn darparu mynediad i ystod helaeth o adnoddau ar-lein, gan gynnwys cronfeydd data a miloedd o gyfnodolion electronig a gallwch weld llawer o'r rhain o'ch cartref neu o'r gwaith: gellir eu cyrchu drwy dudalen hafan y llyfrgell / Library home page. Mae staff y Llyfrgell bob amser yn hapus i'ch helpu gydag ymholiadau i ddod o hyd i wybodaeth. Gellir cysylltu â'r Llyfrgellwyr Pwnc ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar: healthcarelibrarians@brookes.ac.uk

# Atodiadau

## Cytundeb rhwng y Myfyriwr a'r Asiantaeth Gyflogi

1. Mae'r cytundeb hwn yn gosod allan ymrwymiadau ……….......................………...…….., yr asiantaeth sy'n cyflogi, a ……............………...........………………..…….., y cyfranogwr i Dystysgrif Ôl-radd Prifysgol Oxford Brookes mewn Arwain a Rheoli ym maes Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Fe'i lluniwyd i sicrhau bod y ddau barti yn glir am ofynion y cwrs a rhaid ei gwblhau a'i lofnodi wrth gofrestru ar y rhaglen.
2. Bydd yr asiantaeth gyflogi yn gwneud y canlynol:

   a) Talu ffioedd y cwrs a osodwyd gan Brifysgol Oxford Brookes.
   b) Sicrhau o leiaf 1 diwrnod astudio ar gyfer pob modiwl i helpu cyfranogwyr gwblhau asesiadau erbyn dyddiad y dedlein.
   c) Cynorthwyo cyfranogwyr gydag unrhyw fynediad penodol neu anghenion cyfathrebu fyddai ganddyn nhw.
   d) Sicrhau bod y cyfranogwyr yn gallu cyrchu'r rhyngrwyd ac yn gallu cymryd rhan ymhob gweithgaredd dysgu ar-lein.
   e) Cynorthwyo'r cyfranogwyr drwy gydol y rhaglen. Yn benodol, bydd rheolwr llinell y cyfranogwr yn cyfrannu at asesiad 360 gradd ar gychwyn y rhaglen ac ar ddiwedd y rhaglen, bydd yn rhan o drafodaethau am bynciau asesu ac yn cwblhau arsylwi arferion yn y gweithle.

3. Bydd mynychwyr y cwrs yn gallu gwneud y canlynol

   a) Cyrchu'r rhyngrwyd er mwyn cyfranogi ymhob gweithgaredd dysgu ar-lein, lawrlwytho adnoddau a chyflwyno aseiniadau.
   b) Hysbysu IPC am unrhyw anghenion mynediad perthnasol neu anghenion cyfathrebu sydd ganddyn nhw o ran y rhaglen hon.
   c) Paratoi'r wybodaeth gefndirol, yr ymchwil a'r hunan-astudiaeth angenrheidiol i gwrdd â gofynion y rhaglen.
   d) Cytuno ar bwnc y prosiect seiliedig ar waith a'r astudiaeth achos gyda noddwr eu rhaglen neu ddirprwy addas.
   e) Cwrdd â'r dedleins ar gyfer cyflwyno aseiniadau.

4. Sylwer bod gofyn i IPC adrodd yn ôl am bresenoldeb cyfranogwyr ar y rhaglen a'u cynnydd yn cyflwyno asesiadau i'r asiantaeth gyflogi a noddwyr y rhaglen.

Llofnodwyd: ……………….....…….…….……...…. Cyfranogwr

……………………..………......……...…Ar ran yr asiantaeth gyflogi

……………………..………......……...…Dyddiad

# Partner dibynadwy mewn gofal cyhoeddus

Mae Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) yn rhan o Brifysgol Oxford Brookes. Rydyn ni'n darparu ymchwil a gwerthuso cymhwysol, ymgynghoriaeth, a hyfforddiant i helpu ymddiriedolaethau'r GIG, cyrff llywodraethol, cynghorau, elusennau a sefydliadau masnachol i gael effaith bositif ar iechyd a llesiant pobl.

## Am ragor o wybodaeth


Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC)

Prifysgol Oxford Brookes University

Campws Headington Campus

Gipsy Lane

Headington

Rhydychen / Oxford

OX3 0BP

Ffôn: +44 (0)1865 790312

https://ipc.brookes.ac.uk/

https://www.linkedin.com/company/institute-of-public-care-brookes